***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 435 (Cy.63)

# CAFFAEL TIR, CYMRU
# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Chwefror 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

### Terfyn gwerth blynyddol

**2.** £34,800 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

### Dirymu

**3.** Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005(**3**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 1990 p.8.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i amrywir gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2005/367 (Cy.33)

*Ieuan Wyn Jones*
Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

15 Chwefror 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir, a bennir yn Atodlen 13 i'r Ddeddf (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno), i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir.

Un o'r buddiannau mewn tir sy'n gymwys i'w ddiogelu yw buddiant perchen-feddiannydd hereditament (sef hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) pan na fydd gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (adran 149(3)(a) o'r Ddeddf).

Mae'r pŵer i ragnodi'r swm hwnnw, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, wedi ei freinio bellach yng Ngweinidogion Cymru. Drwy arfer y pŵer hwnnw, mae Gweinidogion Cymru, drwy'r Gorchymyn hwn yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £29,200 i £34,800 er mwyn cymryd i ystyriaeth ailbrisio'r ardrethi yn y flwyddyn 2010.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/367) (Cy.33) wedi ei ddirymu.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynglŷn ag effaith y Gorchymyn hwn wedi cael ei baratoi a'i atodi i'r Memorandwm Esboniadol. Gellir cael copïau gan Lywodraeth y Cynulliad, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.